# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

**RHAN 5**

DARPARIAETH ATODOL

**PENNOD 3**

YMCHWILIO A GWYBODAETH

**60 Datgelu gwybodaeth i ACC**

(1) Caiff person o fewn is-adran (2) ddatgelu gwybodaeth i ACC at ddiben cynorthwyo ACC i gasglu a rheoli'r dreth.

(2) Y personau yw—

(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(b) Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

(3) Nid yw datgeliad o dan yr adran hon yn torri—

(a) unrhyw rwymedigaeth gyfrinachedd sy'n ddyledus gan y person sy'n gwneud y datgeliad, neu

(b) unrhyw gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth (sut bynnag y caiff ei osod).

(4) Ond nid oes dim yn yr adran hon yn awdurdodi datgeliad—

(a) sy'n **[**[F1]torri'r ddeddfwriaeth diogelu data**]** , neu

(b) a waherddir gan unrhyw un neu ragor o Rannau 1 i 7 neu Bennod 1 o Ran 9 o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 (p. 25).

(5) Hyd nes y bydd diddymiad Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (p. 23) gan baragraffau 45 a 54 o Atodlen 10 i Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 (p.

*__Newidiadau i ddeddfwriaeth:__ Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 60. (See end of Document for details)*

25) mewn grym yn llwyr, mae is-adran (4)(b) yn cael effaith fel pe bai'n cynnwys cyfeiriad at y Rhan honno.

(6) Nid oes dim yn yr adran hon yn effeithio ar unrhyw bŵer sydd gan unrhyw berson i ddatgelu gwybodaeth sy'n bodoli ar wahân i'r adran hon.

(7) Caiff rheoliadau ddiwygio is-adran (2) er mwyn ychwanegu, diwygio neu ddileu cyfeiriad at berson neu at ddisgrifiad o bersonau.

**[**[F2](8) Yn yr adran hon, mae i "y ddeddfwriaeth diogelu data" yr un ystyr ag a roddir i "the data protection legislation" yn Neddf Diogelu Data 2018 (gweler adran 3 o'r Ddeddf honno).**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 60(4)(a) wedi eu hamnewid (25.5.2018) gan Data Protection Act 2018 (c. 12), a. 212(1), **Atod. 19 para. 225(2)(b)** (ynghyd ag aau. 117, 209, 210); O.S. 2018/625, rhl. 2(1)(g)

**F2** A. 60(8) wedi ei fewnosod (25.5.2018) gan Data Protection Act 2018 (c. 12), a. 212(1), **Atod. 19 para. 225(3)(b)** (ynghyd ag aau. 117, 209, 210); O.S. 2018/625, rhl. 2(1)(g)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 60 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 60 mewn grym ar 8.11.2017 gan O.S. 2017/955, **ergl. 3(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 60.